

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod rhithiol Cyngor Cymuned Llanllyfni, a gynhaliwyd dros y wê, Nos Fawrth, 13 Ebrill 2021 am 7.00 o'r gloch.

Agenda

1. **Presenol:** Sian Dafydd (Cadair), Peter Bridges, Gareth Lloyd Jones – Talysarn; Dafydd Thomas – Nebo, Ffion Jones – Nantlle; Barry Bracegirdle, Heledd Gwilym, Erfyl Williams, Justin Davies, Dylan Herbert – Penygroes; Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, O P Huws – Llanllyfni; Craig ab Iago – Cynghorydd Sir.

Ymddiheuriadau: Harry Wyn Owen – Talysarn a Judith Humphreys – Cynghorydd Sir. Ni dderbynniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Dilwyn Lloyd - Talysarn.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y gadeiryddes.

2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir**- Neb yn datgan.

3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod 9fed Chwefror 2021** – Cynnigiodd Sian Dafydd ac eilliodd Barry Bracegirdle fod y cofnodion yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd - Ymatebion Cyngor Gwynedd** – Ymateb wedi dod gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r broblem gyda baw ci ymhob man, a'r cyngor yn gofyn os fuasai yn bosib i'r Cyngor Cymuned redeg arolwg o'r sefyllfa. Trafodwyd a cynnigiodd Sian fod pawb i dynnu lluniau o'r broblem a'u gyrru i'r clerc eu pasio ymlaen i'r swyddog yn y cyngor. **Safle bws Penygroes** – trafodwyd nad ydi'r paneli newydd wedi ei gosod ar y safleoedd gan fod Cyngor Gwynedd wedi dweud eu bod wedi archebu a talu am baneli newydd ar gyfer y ddau safle bws ond nid ydynt i weld wedi cael eu trwsio. Gofynwyd i'r clerc gysylltu gyda Rhian Wyn Williams, Adran Trafnidiaeth Cyhoeddus Cyngor Gwynedd ynglŷn â hyn a holi beth sy'n digwydd a pa bryd fydd y safleoedd wedi eu trwsio? Mae gwaith arall o rhoi trydan i'r safleoedd wedi bod yn mynd ymlaen

(Oherwydd problemau technegol gyda zoom bu raid i OP Huws adael y cyfarfod).

5. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** – Roedd pawb wedi derbyn adroddiadau Judith Humphreys a Craig ab Iago ymlaen llaw i'r cyfarfod. Rhoddwyd cyfle i holi Craig ab Iago am ei adroddiad a bu i Hefina Roberts ofyn os oedd Craig yn gwybod pwy oedd wedi rhoi yr arwydd gyda ysgrifen hyll arno yn y plot blodau rhwng Llanllyfni a Penygroes – nid oedd Craig yn gwybod pwy oedd yn gyfrifol. Diolchwyd i Craig am ei adroddiad.

6. **Penodi Warden** – Esboniodd Craig beth oedd dan sylw gyda hyn – y syniad fuasai cael rhywbeth tebyg i 'Gang Cymunedol' a fuasai yn gweithio o gwmpas yr ardal i'w chadw yn lân o sbwriel ayyb. Buasai Cynghorau Cymuned Llanllyfni, Llandwrog a Llanwnda yn gweithio ar y cyd hefo Cyngor Gwynedd ar hyn. Gofynnodd Craig os y buasai Cyngor Cymuned Llanllyfni yn gefnogol o'r syniad. Trafodwyd y mater a penderfynwyd yn unfrydol i ystyried y cais ond bod angen cael mwy o wybodaeth fel costau ayyb cyn bwrw ymlaen. Y clerc i lythyru Craig gyda hyn.

7. **Taflen ariannol a chyllid / Adroddiad is-bwyllgor cyllid 06/04/21** - Copi o'r taflenni wedi eu gyrru i'r cynghorwyr dros e-bost ymlaen llaw i'r cyfarfod er mwyn iddynt gael cyfle i edrych drostynt. Gofynwyd i Gareth Jones adrodd ar hyn a mynd trwy beth a drafodwyd yn yr is-bwyllgor. Codwyd fod angen newid y swm yswiriant gan ei fod wedi ei dalu yn barod o gyllideb 2021/21. Holodd Dafydd Thomas ynglŷn â lwfans y cynghorwyr ac a ddylai fod yna restr / cofnod o beth mae pawb wedi ei benderfynu ag a ddylai fod yn syniad rhoi rhywbeth yn y gyllideb amdano? Yn dilyn y newidiadau hyn pasiwyd yn unfrydol i gymeradwyo y gyllideb. **Aelodaeth Un Llais Cymru** – yn ystod yr is-bwyllgor cyllid trafodwyd yr aelodaeth a cytunwyd yno i argymhell ei gymeradwyo yn y pwyllgor llawn. Cost yr aelodaeth yw £685 a cytunwyd yn unfrydol yn y cyfarfod hwn i'w dalu.

8. **Cyfarfodydd is-bwyllgor / Cyfarfodydd yn ystod y mis** – Dim i'w drafod.

9. **Parc Sglefrfyrrddio / Trac BMX Talysarn** – roedd pawb wedi derbyn ebyst unlyŷn â sefyllfa y parc, ac ar hyn o bryd nid oedd dim mwy i'w ychwanegu gan nad oedd cyfarfod arall wedi bod. Adroddwyd nad oes yswiriant bellach ar y safle ac mae Cyngor Gwynedd wedi dweud eu bod am roi arwyddion i fyny a cloi y safle, ond hyd yn hyn nid oes dim wedi ei wneud. Dywedodd Craig y buasai yn edrych mewn i hyn i gyd.

10. **Goleuadau Nadolig** – roedd pawb wedi derbyn yr 'Adroddiad Cyflwr' a oedd wedi ei yrru gan y contractwyr a wnaeth y gwaith o dynnu y goleuadau nadolig ym Mhenygroes yn dweud nad yw'r golau a dynnwyd yn ddiogel a ni allant gael eu ail ddefnyddio. Roedd y contractwyr wedi gyrru catlog o oleuadau sydd ar gael er mwyn edrych drosto. Cynnigiodd Sian efallai y buasai yn syniad cael is-bwyllgor i edrych ar y catlog ag yna adrodd nôl i'r pwyllgor llawn. Gwyndaf Roberts a'r clerch i drafod dyddiad ar gyfer cynnal is-bwyllgor. Y gwaith o osod bocsys yn Llanllyfni heb ei ddechrau eto – y clerch i holi Dylan Herbert os yw wedi clywed unrhyw beth am pryd fydd yn cael ei gario allan.

11. **Cylch Iaith** – (cafwyd OP Huws nôl i'w cyfarfod ar gyfer y drafodaeth hon) – roedd pawb wedi derbyn copi o lythyr a oedd wedi ei yrru allan i Gyngor Gwynedd gan Howard Huws, Cydlynnydd Ymgyrch Dwristiaeth, Cylch yr Iaith. Esboniodd OP Huws beth oedd bwriad y llythyr a cynnigiodd fod Cyngor Cymuned Llanllyfni yn gofyn i Gyngor Gwynedd am astudiaeth iaith – penderfynwyd yn unfrydol i gefnodi y cynnig hwn.

12. **Sedd wag Ward Penygroes** – Yn dilyn o hysbysu y sedd wag ar dudalen Facebook y cyngor cymuned daeth un cais i law – Ceri Ann Owen. Cytunodd pawb yn unfrydol i'w chyfethol ar y Cyngor Cymuned. Y clerch i gysylltu i'w hysbysu a'i gwahodd i'r cyfarfod nesaf.

13. **Materion Pentrefi – Penygroes** – Barry Bracegirdle yn adrodd fod y tyllau ar Ffordd Yr Orsaf wrth fynedfa i fewn i Wynnstay wedi gwaethygu yn ddifrifol a'u bod yn beryglus erbyn hyn ac angen sylw brys – y clerch i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd eto am hyn. Stryd Yr Eglwys y tyllau yn y sianeli yn gwaethygu ag yn beryglus ag er wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd dair gwaith neb wedi ymweld ar safle – y clerch i gysylltu unwaith eto. Y man ail-gylchu angen ei glerio o sbwriel sydd wedi ei adael yno. Holodd Erfyl Williams a oedd posib gofyn am arwyddion i'w rhoi yno yn gofyn iddynt beidio a gadael pethau os nad oes lle yn y biniau pwrpasol – y clerch i gysylltu gyda'r cyngor am hyn. Dwy deledu wedi eu gadael ar wahanol safleoedd yn y pentref ag angen eu clerio – y clerch i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd am hyn. Barry Bracegirdle yn gofyn os oedd posib gyrru at Gyngor Gwynedd i ddatgan gwaith da y gweithiwr newydd sydd ganddynt yn casglu yr ail-gylchu ar Stad Trem Yr Wyddfa ac o'r herwydd mae yn daclus gan ei bod yn codi sbwriel sydd yn cael ei chwythu i ffwrdd a dylai pob un o'r gweithwyr wneud yr yn fath. **Llanllyfni** – Tipio slei bach wedi digwydd ar y llwybr wrth gefn Stad Ger Y Llan – y clerch i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd am hyn. **Nantlle** – dim i'w adrodd. **Talysarn** – Adroddodd Peter Bridges fod y wal sydd rhwng Lôn Bryn Celyn a'r ffordd lle oedd yr hen drac trêrn yn disgyn allan i'r ffordd ag yn berygl a peryg i'r wal a'r ffordd ddisgyn – y clerch i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd am hyn. **Nebo** – Dafydd Thomas yn adrodd fod ysbwriel wedi ei adael ger y llyn – y clerch i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd am hyn.

Cyflwr Ffyrrdd yr Ardal – llawer o ffyrdd yr ardal mewn cyflwr difrifol ag angen sylw brys gan Gyngor Gwynedd – trafodwyd y mater a cynnigwyd i bawb dynnu lluniau a'u gyrru i'r clerch er mwyn eu pasio ymlaen i Gyngor Gwynedd. Cytunodd pawb. Cynnigiodd Dafydd Thomas fod pawb yn cael wythnos i yrru y lluniau ymlaen ag yna Nia i yrru i'r cyngor – cytunwyd gyda hyn.

14. **Ceisiadau Cynllunio** –

C21/0065/22/CR – Cae Efa Lwyd Fawr, Ffordd Clynnog, Penygroes – Codi estyniad ar flaen ty annedd – dim gwrthwynebiad

C21/0066/22/LL – Cae Efa Lwyd Fawr, Ffordd Clynnog, Penygroes – Estyniad ar flaen ty annedd – dim gwrthwynebiad

C21/0238/22/LL – Canolfan Hamdden Plas Silyn – Cais ar gyfer gosod ffens 1.8m o uchder ynghyd a giat mynedfa o gwmpas rhandiroedd – dim gwrthwynebiad.

15. Gohebiaeth – Aethpwyd drwy yr ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn a penderfnwyd i ganiatau y cais gan Gymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd i gofnodi Mynwentydd y Cyngor Cymuned. Nid oedd dim yn codi o weddill y gohebiaeth.

16. Llwybrau a Mynwentydd – Prosiect Macpelah – Adroddwyd nad oedd llawer wedi ymgeisio am y tendr ac OP Huws wedi cael cyngor i gysylltu gyda ymgymerywyr a fuasai a diddordeb yn y tendr. Trafodwyd hyn a penderfynwyd i'r clerwr yrru y dendr allan i ymgymerywyr a hefyd i ymestyn y dyddiad cau i 30 Ebrill er mwyn rhoi cyfle iddynt ymgeisio. Hefyd y clerwr i gysylltu gyda y rhai a oedd wedi dangos diddordeb i adael iddynt wybod fod y dyddiad wedi ei ymestyn. Arwyddion giât Mynwent Gorffwysfa – diolch i Harry Owen am osod yr arwyddion yn eu lle. Trafodwyd am ba hyd y dylent fod fyny cyn i'r contractwyr dynnu y corlannau. Trafodwyd a penderfynwyd ar amser o fis – y clerwr i gysylltu gyda'r contractwyr i ddweud hyn. Wal Mynwent Macpelah – Adroddwyd fod darn o wal angen ei thrwsio yn Macpelah – wedi derbyn pris o £90 gan y contractwyr i gario allan y gwaith – cynigiodd Barry a Gwyndaf i dderbyn y pris hwn a cytunodd pawb. Torri gwair rhwng cerrig beddi – holodd Ffion Jones beth sydd yn digwydd gyda torri gwair rhwng dwy garreg fedd – dim i'w weld fel eu bod yn ei dorri. Barry a Gwyndaf i holi Harry am hyn.

17. Materion ariannol -

- R.J Electrics – £555.36 - anfoneb tynnu goleuadau nadolig - cytunwyd
- Designer Signs - £30.00 – trwsio arwyddion mynwent (anfoneb dyddiedig 24/11/20 ond heb ei yrru allan tan nawr) - cytunwyd
- Designer Signs - £47.04 – Arwyddion i Fynwent Gorffwysfa - cytunwyd
- Nia Jones - £108.00 – Reach Publishing hysbyseb tendr Macpelah yn yr Herald - cytunwyd
- Nia Jones - £25.00 Ffôn a rhyngwyd Ebrill 2021 - cytunwyd
- Nia Jones - £14.39 Zoom Ebrill 2021 - cytunwyd
- Nia Jones – £18.36 amlenni, stampiau a postio - cytunwyd